Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD LLUN, 5 MAWRTH 2018**

AT: HOLL AELODAU'R **PWYLLGOR APELAU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR APELAU** SYDD I'W GYNNAL YN **YSTAFELL BWYLLGOR 2, 3 HEOL SPILMAN, CAERFYRDDIN** AM **9.30 AM, DYDD MAWRTH, 13EG MAWRTH, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **KJThomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# PWYLLGOR APELAU

**6 AELOD**

**GRŴP PLAID CYMRU (3)**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Cynghorydd | **Kim Broom** |
| **2.** | Cynghorydd | **J.K. Howell** (Cadeirydd) |
| **3.** | Cynghorydd | **Dorian Williams** |

**GRŴP LLAFUR (2)**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Cynghorydd | **Colin Evans** |
| **2.** | Cynghorydd | **Eryl Morgan** |

**GRŴP ANNIBYNNOL (1)**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Cynghorydd | **Sue Allen** (Is-Cadeirydd) |

***NI CHANIATEIR EILYDDION MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# A G E N D A

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

**3. COFNODION**

LLOFNODI YN COFNOD CYWIR CONFODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

| | | |
|---|---|---|
| **3 .1** | **10FED CHWEFROR 2017** | 5 - 8 |
| **3 .2** | **24AIN CHWEFROR 2017** | 9 - 10 |
| **3 .3** | **27AIN CHWEFROR 2017** | 11 - 12 |

**4. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

**5. DDIM I'W GYHOEDDI**

NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R FATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 13 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y FATER YMA YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | **YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | 13 - 96 |
| **7.** | **YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | 97 - 180 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR APELAU

Dydd Gwener, 10 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.G. Hopkins, J.P. Jenkins and S.E. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Murphy - Uwch-gyfreithiwr
J. Stuart - Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgor 2 - 3 Heol Spilman - 10.00 am - 3.00 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen, B.A.L. Roberts a J. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd J.P. Jenkins | Rhif Cofnod 6 | Mae ei ffrind yn gwneud cais am swydd yn yr Adran Bensiynau. |
| Y Cynghorydd S.E. Thomas | Rhifau Cofnod(ion) 6 | Mae hi'n un o ymddiriedolwyr Cronfa Bensiwn Dyfed. |

## 3. COFNODION - 14 TACHWEDD 2016 (AILGYNULLWYD AR 6 RHAGFYR 2016)

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2016 (ailgynullwyd ar 6 Rhagfyr 2016), gan eu bod yn gywir.**

## 4. DDIM I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddatgelu enw unigolyn.**

## 5. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

**Yn sgil cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, fod y mater yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai hynny yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddatgelu enw unigolyn.**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1988. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddog Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.)

Dywedwyd bod y Swyddogion Ymchwilio yn bwriadu galw tyst, a oedd wedi rhoi tystiolaeth yn y Gwrandawiad Disgyblu ffurfiol. Heriodd y Cynrychiolydd Undeb Llafur hyn gan ei fod yn credu nad oedd yn dilyn y protocol ac nid oeddent wedi cael amser digonol i baratoi. Eglurwyd na fyddai'r tyst yn cyflwyno tystiolaeth newydd ac y byddai'n cyfeirio at wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn y papurau. Cytunodd y Panel i wrando ar y tyst a gohirio'r cyfarfod am 30 munud i roi mwy o amser i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur baratoi. Nodwyd bod y Cynrychiolydd Undeb Llafur yn gwrthwynebu bod y Panel yn gwrando ar y tyst. Ailymgynullodd y cyfarfod am 11pm.

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddogion Ymchwilio, a chan yr apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur. Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddogion Ymchwilio

**PENDERFYNWYD**

**5.1 bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 29 Rhagfyr, 2016, yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu ffurfiol ar 21 Rhagfyr, 2016, yn cael ei gadarnhau;**

**5.2 bod yr apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

Cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynghylch penderfyniad y Pwyllgor.

**CADEIRYDD**

**DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR APELAU

Dydd Gwener, 24 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts and S.E. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Stuart, Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
C. Jones, Cyfreithiwr Cynorthwyol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgor 2 - 3 Heol Spilman - 9.30 am - 4.00 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Williams.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd dim buddiannau.

**3. NAD YDYW I'W GYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

**4. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch y canlynol.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1988. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddog Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.)

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddogion Ymchwilio, a chynrychiolydd undeb llafur yr apelydd.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried yr apêl tan 27 Chwefror 2017.**

**5. Y CYFARFOD YN AILYMGYNNULL**

Roedd y cyfarfod wedi ailymgynnull yn Ystafell Pwyllgorau 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin ddydd Llun, 27 Chwefror 2017 am 9.15am.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd);
**Y Cynghorwyr:**
J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts a S.E. Thomas.

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mrs J. Stuart | - | Pen-swyddog Adnoddau Dynol |
| Mr C. Jones | - | Cyfreithiwr Cynorthwyol |
| Mr M. Davies | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**6. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen a J. Williams.

**7. APÊL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD**

Estynnodd y Cadeirydd groeso'n ôl i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddogion Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, a dywedodd mai diben y cyfarfod oedd parhau â'r gwrandawiad ynghylch apêl yn erbyn diswyddiad a oedd wedi ei ohirio ar 24 Chwefror 2017. Yna bu i'r cynrychiolydd undeb llafur barhau â'i sylwadau ar ran yr apelydd. Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddogion Ymchwilio,

**PENDERFYNWYD**

**7.1** bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 6 Hydref 2016 yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol ar 30 Medi 2017, yn cael ei gadarnhau;

**7.2.bod yr apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.**

Cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynghylch penderfyniad y Pwyllgor.

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# PWYLLGOR APELAU

Dydd Llun, 27 Chwefror 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.P. Jenkins, B.A.L. Roberts and S.E. Thomas

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Murphy - Uwch-gyfreithiwr
J. Stuart - Uwch-Bartner Busnes (Adnoddau Dynol)
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 11.30 am - 4.40 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd dim buddiannau.

## 3. NAD YDYW I'W GYHOEDDI

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007), sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

## 4. YSTYRIED APÊL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch yr unigolyn.**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1988. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r Swyddogion Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (dosbarthwyd copïau o'r protocol ym mhecyn yr agenda.)

Aeth y Pwyllgor felly ymlaen i gael y dystiolaeth gan y Swyddogion Ymchwilio.

Nodwyd bod cynrychiolydd undeb llafur yr apelydd yn bwriadu galw ar dyst, a oedd wedi rhoi tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad. Cytunodd y Panel ohirio'r cyfarfod am gyfnod er mwyn aros i'r tyst gyrraedd. Gohiriwyd y cyfarfod am 11.50am. (Noder: Gadawodd y Cynghorydd J.P. Jenkins y cyfarfod yn y man hwn).

Ailymgynullodd y Panel am 12.05pm. Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan yr apelydd a'i gynrychiolydd undeb llafur.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi, ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddogion Ymchwilio

**PENDERFYNWYD**

**4.1 bod yr apêl yn cael ei gwrthod a bod y penderfyniad i ddiswyddo'r apelydd, a oedd wedi'i ategu mewn llythyr dyddiedig 6 Hydref, 2016 yn dilyn Gwrandawiad Disgyblu Ffurfiol a gynhaliwyd ar 30 Medi 2016, yn cael ei gadarnhau;**

**4.2. bod yr apelydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r rhesymau llawn dros wrthod yr apêl.**

(Noder: Gadawodd y Cyng. S.M. Allen y cyfarfod yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor)

Cafodd y naill ochr a'r llall eu galw yn ôl i'r cyfarfod a'u hysbysu ynghylch penderfyniad y Pwyllgor.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Yn rhinwedd paragraff(s) 13 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 13 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol